Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**The Green Giraffe Day Nursery**

**Uned 2**
**Dunleavy Drive**
**Caerdydd**
**CF11 0SR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**12 Tachwedd 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Green Giraffe Nursery wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal dydd llawn ar gyfer 78 o blant. Fe'i lleolir ar barc manwerthu yn ardal Bae Caerdydd y ddinas. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 7:45 a 18:00 bob diwrnod yn ystod yr wythnos ac mae'n darparu gofal i blant rhwng chwe wythnos oed a phum mlwydd oed. Y person cofrestredig, Andrea McCormack, yw perchennog y feithrinfa ac mae'n berchen hefyd ar ail wasanaeth â'r un enw yng nghanol y ddinas. Mae yna berson â chyfrifoldeb profiadol sy'n meddu ar gymwysterau addas sy'n gyfrifol am y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwasanaeth Saesneg yw'r gwasanaeth hwn sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gyda'r plant yn ystod y sesiynau.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth ysgogol o brofiadau a chyfleoedd diddorol. Maent wedi ymgartrefu'n dda ar y cyfan ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yn ymgysylltu'n briodol â'r plant eraill a'u gofalwyr. Mae gan y gweithwyr allweddol ddealltwriaeth dda o anghenion datblygiadol y plant ac maent yn rhagweithiol, gan ddarparu gofal a chymorth da. Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae ardal awyr agored amgaeëdig yn rhan o'r gwasanaeth. Ceir strwythur rheoli wedi'i ddiffinio'n dda ac mae'r person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb yn cydgysylltu'n agos er mwyn sicrhau bod pob proses a system yn gweithio'n dda. Mae'r arweinwyr yn ymatebol i argymhellion a wnaed yn ystod y broses adborth.

**2. Gwelliannau**

Dyma oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r feithrinfa gofrestru.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Roedd yr argymhellion er mwyn gwella arfer yn cynnwys monitro trefniadau cysgu'r babanod a'r angen i gynllunio a threfnu amseroedd bwyd yn well. Caiff y rhain eu trafod yn yr adroddiad a cheir crynodeb ohonynt ar y diwedd.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant feithrin amrywiaeth dda o sgiliau a gwybodaeth sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Darperir gofal cynnes a magwrus i'r plant sy'n cael budd o brofiadau cadarnhaol a chyfleoedd cadarnhaol i ryngweithio.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Caiff y plant gymorth i wneud eu penderfyniadau eu hunain o ran sut i dreulio eu hamser.

Gwelsom gydbwysedd da o weithgareddau wedi'u harwain gan oedolion ynghyd â chyfleoedd i'r plant chwarae mewn modd hunangyfeiriedig. Ar y cyfan, mae'r plant yn hyderus wrth fynegi eu hanghenion ac ymgysylltu â'r staff a chaiff pob ymdrech i gyfathrebu ei gwerthfawrogi a'i hannog gan y staff. Gwelsom blant yn mynegi eu safbwyntiau a'u dewisiadau yn ystod gweithgaredd grŵp a oedd yn cynnwys straeon â synau anifeiliaid. Mae'r plant yn hyderus wrth ddweud pan fyddant am newid gweithgareddau ac yn gwybod y caiff eu barn ei hystyried. Caiff arferion eu newid er mwyn blaenoriaethu anghenion y plant a chynhelir amser byrbryd yn gynharach pan fydd y plant yn dangos bod eisiau bwyd arnynt. Mae'r plant yn y grŵp oedran hŷn yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gweithgareddau. Gwelsom dystiolaeth o hyn pan oedd y plant yn dysgu am fwystfilod bach ac yn casglu mwydod ac ieir bach yr haf.

Mae hunan-barch y plant yn cynyddu wrth iddynt fynegi eu hunain yn ddirwystr.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn profi ymlyniadau emosiynol cadarnhaol â'u gofalwyr.

Gofelir am y plant mewn ystafelloedd sylfaen sy'n adlewyrchu eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r gweithwyr allweddol yn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth am anghenion gofal a dewisiadau personol y plant ei rhannu er mwyn sicrhau cysondeb a diogelwch. Rhoddir gofod unigol i'r plant mewn droriau er mwyn iddynt gadw eu heiddo personol. Cânt eu trin â pharch a thynerwch gan y staff sy'n eu hadnabod yn dda. Gwelsom un plentyn a oedd yn sâl yn cael sylw agos a chysur gan ei gweithiwr allweddol hyd nes y cyrhaeddodd ei mam i'w hebrwng adref.

Caiff teimladau'r plant eu hystyried yn ofalus a gweithredir yn unol â'r teimladau hynny, gan wella llesiant emosiynol.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Ar y cyfan, mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd ac yn dysgu i rannu a chydweithredu.

Mae pob plentyn yn dechrau deall ei emosiynau a'i deimladau. Maent yn dysgu sut i ddatblygu strategaethau ymdopi er mwyn ymdrin ag achosion o siom a her. Ar y cyfan, gall y plant aros eu tro i gael bwyd yn ystod amseroedd bwyd ac mae rhai ohonynt yn fodlon rhannu a chydweithredu ag eraill. Gwelsom rai plant yn helpu eraill pan oedd angen cymorth a rhoddodd un plentyn gysur i blentyn arall pan faglodd yn yr ardal awyr agored.

Mae'r plant yn cael profiad o ryngweithio â'r plant eraill a'u gofalwyr mewn modd cadarnhaol ac yn meithrin cydberthnasau gwerthfawr ac adeiladol.

**1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?**

Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol ac ysgogol.

Ceir cyfleoedd da i chwarae yn yr awyr agored ac ymweliadau rheolaidd â'r parciau lleol a chyfleusterau cymunedol. Gall y plant archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac mae gweithgareddau a gaiff eu harwain gan y plant a chan oedolion ar gael iddynt. Maent yn mwynhau profiadau creadigol â phaent, toes chwarae, trochion gwyllt, mwd a deunyddiau eraill ac yn cael ymdeimlad o foddhad wrth fynd ag enghreifftiau o'u gwaith gartref er mwyn eu dangos i'w teuluoedd. Dywedodd un rhiant wrthym fod ei phlentyn yn hoffi chwarae gan esgus ei bod yn y feithrinfa gartref gan eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau cymaint.

Mae'r plant yn ymgysylltu ac yn dyfalbarhau â gweithgareddau chwarae ac yn cael ymdeimlad o gyflawniad a phleser o'u gweithgareddau.

**1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau sy'n eu galluogi i feithrin sgiliau newydd er mwyn hyrwyddo eu dysgu a'u datblygiad.

Caiff y plant eu cefnogi i feithrin rhai sgiliau hunan-help sy'n cynnwys mynd i'r tŷ bach, golchi dwylo a thacluso. Gwnaethom argymell y dylid cynnig cyfleoedd i'r plant hŷn gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau amser bwyd, megis gosod y byrddau, dewis eu bwyd eu hunain a gweini'r bwyd hwnnw a chlirio ar ôl prydau bwyd. Mae rhai plant yn cymryd rhan wrth dorri ffrwythau ar gyfer byrbrydau ac yn mwynhau'r profiad hwn. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn hoffi chwarae yn yr awyr agored ac fe'u gwelsom yn cael hwyl, yn rhedeg ac yn defnyddio'r fframiau dringo a'r llithren. Mae'r trawst cydbwyso yn weithgaredd poblogaidd ac mae'r plant yn dangos pleser ac ymdeimlad o gyflawniad pan fyddant yn llwyddo i gyrraedd y pen. Defnyddir y Gymraeg yn achlysurol drwy gydol y sesiynau ac mae nifer o'r plant yn amlwg yn deall sgyrsiau syml.

Caiff datblygiad y plant ei hyrwyddo gan ansawdd y profiadau a'r amrywiaeth profiadau sydd ar gael iddynt.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae systemau a gweithdrefnau ar waith. Ar y cyfan, mae'r systemau a'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu gwasanaeth diogel sy'n annog canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Caiff y systemau eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn cael blaenoriaeth.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael gofal da ac yn cael eu cadw'n ddiogel.

Mae polisi diogelu ar waith ac mae pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod hi a'i staff yn hyderus wrth nodi unrhyw risgiau i'r plant. Ceir dealltwriaeth glir hefyd o'r broses ar gyfer atgyfeirio unrhyw bryderon i'r awdurdod priodol. Gwnaethom argymell y dylai'r person â chyfrifoldeb a'i dirprwy fynychu hyfforddiant diogelu estynedig er mwyn meithrin dealltwriaeth fanylach o'r gweithdrefnau. Ni wnaed unrhyw atgyfeiriadau diogelu. Mae proses ar waith ar gyfer monitro unrhyw anafiadau sydd eisoes gan y plant pan fyddant yn dod i'r feithrinfa a gofynnir i'r rhieni lofnodi er mwyn dangos bod y wybodaeth hon wedi'i throsglwyddo.

Gwelsom wybodaeth a oedd yn ymwneud â rheoli alergeddau ac anoddefedd plant ar waliau pob ystafell sylfaen. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddaru gan y rhieni. Nodwyd gennym hefyd o'r cofnodion y bu rhai enghreifftiau lle na lwyddwyd i reoli'r prosesau hyn yn effeithiol, er na ddioddefodd unrhyw blentyn unrhyw niwed. Atgyfnerthwyd y prosesau gan ddefnyddio bowlenni gwahanol liw i nodi dewisiadau, anoddefedd ac alergeddau. Darperir hyfforddiant mewnol i bob aelod o staff fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Mae'r ddau gogydd yn gweithio'n agos â'r staff er mwyn cadw cofnodion cyfredol ar gyfer holl anghenion bwyd y plant. Mae'r holl fwyd yn ffres ac yn faethlon ac yn cael ei goginio o'r newydd bob dydd gan ddilyn bwydlen sy'n newid bob pedair wythnos. Gwnaethom drafod yr angen i sicrhau y caiff unrhyw wybodaeth a gaiff ei diweddaru ei rheoli'n fanwl a'i rhannu.

Gwelsom nad oedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol yn ystod ein hymweliad er ei fod mewn bocs ar silff yn y swyddfa. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod yn bwriadu rhoi system newydd ar waith ar unwaith er mwyn ystyried argymhellion storio'r cyflenwr.

Mae pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig ac maent yn hyderus wrth ymdopi ag unrhyw fân ddigwyddiadau.

Mae'r systemau yn effeithiol ar y cyfan ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ond rhaid rhoi rhai camau gweithredu ychwanegol ar waith er mwyn atgyfnerthu'r gweithdrefnau.

## 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn effeithiol.

Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith ac mae'r staff yn defnyddio'r polisi hwn wrth reoli'r rhyngweithio. Gwelsom fod dull gweithredu cyson ar waith a'u bod yn darparu ffiniau realistig i'r plant eu dilyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod bob amser yn ystyried oedran a cham datblygu'r plant wrth ymdrin â materion yn ymwneud ag ymddygiad. Gwelsom y staff yn defnyddio llais tyner, gan ganmol ac annog y plant. Mae'r staff yn sicrhau amgylchedd tawel a dywedwyd wrthym y byddent yn symud plentyn o sefyllfa anodd, pe byddai angen gwneud hynny, ac yn defnyddio technegau tynnu sylw er mwyn helpu'r plentyn i ailffocysu. Mae siartiau i nodi unrhyw ffactorau sbardun neu sefyllfaoedd i'w hosgoi yn achos plant unigol ar waith pan fo'u hangen. Caiff pob digwyddiad ei gofnodi a'i drafod gyda'r rhieni a chytunir ar strategaethau er mwyn rheoli unrhyw ymddygiad.

Mae'r staff yn hyrwyddo llesiant emosiynol y plant gan ddefnyddio strategaethau cefnogi ymddygiad cadarnhaol.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Yn gyffredinol, mae'r staff yn darparu gofal magwrus sy'n diwallu anghenion y plant.

Ar y cyfan, mae'r staff yn ymateb i anghenion gofal y plant gan ddangos sgil a hoffter. Fodd bynnag, yn ystafell Pumpkin Patch i blant 16 i 24 mis, gwelsom nad oedd llawer o drefn. Roedd y bwyd a oedd yn cyrraedd o'r gegin yn hwyr a phan gyrhaeddodd, roedd yn rhy boeth ac roedd angen ei dorri. Daeth y plant yn anniddig ac yn ofidus ac roedd angen sylw arnynt gan y staff a oedd yn brysur yn ymdrin â'r bwyd a'r diodydd. Yn ystod y sesiwn adborth, dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym y byddai'n sicrhau bod y staff yn cydgysylltu â staff y gegin ac na fyddai gofyn i'r plant eistedd wrth y bwrdd am gyfnod hir cyn bod eu bwyd yn barod. Nodwyd gennym hefyd nad oes digon o staff ar gael yn ystod amseroedd bwyd yn ystafell Strawberry, er eu bod i mewn y gymhareb cywir, i sicrhau bod y plant yn cael eu bwyd yn brydlon ac nad oes yn rhaid iddynt aros.

Dyrennir gweithwyr allweddol i'r plant pan fyddant yn dechrau yn y feithrinfa. Darperir gwybodaeth gan rieni sy'n dod i sesiynau ymgartrefu gyda'u plentyn am arferion y plant. Cynigir hyd at bedair sesiwn i rai plant tan y byddant wedi ymgartrefu. Gwneir gwaith cynllunio dyddiol a phennir themâu bob mis. Caiff diddordebau'r plant eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau. Roedd injan dân wedi ymweld â'r feithrinfa a dywedodd y plant wrthym eu bod wedi mwynhau'r digwyddiad hwn gan drafod eu profiadau mewn ffordd gyffrous. Mae'r gweithwyr allweddol yn arsylwi ar y plant ac yn cynllunio ac yn pennu targedau cyflawniad. Mae gan bob plentyn lyfr mawr i arddangos eu gwaith a lluniau ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Ni

welsom unrhyw dystiolaeth o ganlyniadau'r gwaith cynllunio na chyflawni targedau a thrafodwyd hyn gyda'r person â chyfrifoldeb. Mae'r plant sy'n mynychu'r feithrinfa yn dod o gefndiroedd amlddiwylliannol a chaiff eu treftadaethau eu dathlu drwy gydol y flwyddyn. Caiff pob plentyn ei barchu fel unigolyn a gwahoddir y rhieni i gymryd rhan mewn gweithgareddau tymhorol a diwylliannol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y dathliadau yn cynnwys Eid, Hanukkah, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Dydd Gŵyl Dewi a'r Pasg.

Mae'r staff yn asesu anghenion y plant yn effeithiol ac yn sicrhau y rhoddir cymorth priodol. Fodd bynnag, mae angen adolygu rhai arferion.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r feithrinfa yn gweithredu o adeilad deulawr mawr a addaswyd yn benodol ar gyfer y gwasanaeth. Mae digon o le ac mae wedi'i gynllunio'n dda er mwyn cynnig cyfleoedd da i annog y plant i ddysgu a datblygu. Mae'r rheolwyr yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch ac y gwneir defnydd da o'r gofod sydd ar gael. Gofelir am y plant mewn un o bum ystafell sylfaen, sy'n cyfateb i'w hoedran a'u cam datblygu.

### Ein canfyddiadau

**3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob system ddiogelwch yn gweithredu'n effeithiol.

Mae system CCTV ar waith sy'n monitro pob rhan o'r adeilad ac a gaiff ei gwylio gan y rheolwyr o'r swyddfa drwy gydol y dydd. Cynhelir asesiadau risg dyddiol gan arweinwyr yr ystafelloedd yn ogystal â chamau gweithredu ar restrau gwirio ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Gwelsom siartiau glanhau a oedd yn amlinellu tasgau dyddiol, wythnosol a misol. Mae'r staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cynllunio ymlaen llaw pan fyddant yn gyfrifol am unrhyw dasg benodol. Mae hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau, trefnu'r adnoddau a chlirio. Nodwyd gennym bod eitemau o ddodrefn trwm wedi'u gosod yn sownd wrth y waliau a bod rheiliau pren cryf ar y ffenestri mawr er mwyn amddiffyn y plant. Caiff damweiniau eu cofnodi'n dda a'u monitro'n rheolaidd. Mae gwybodaeth o'r cofnodion hyn yn bwydo i'r asesiadau risg a gaiff eu haddasu fel y bo'n briodol. Cynhelir cofrestr bob tro y bydd y plant yn chwarae tu allan yn yr ardd a phan fyddant yn dychwelyd. Cynhelir ymarferion tân bob chwarter a chaiff y cyfrifoldebau cysylltiedig eu hamlinellu'n glir i'r staff yn ystod eu cyfnod sefydlu. Cofnodir pob ymarfer a chymerir camau gweithredu mewn perthynas ag unrhyw beryglon a nodir. Cynhelir archwiliadau diogelwch tân bob wythnos. Cynhelir yr asesiad risg tân gan ymgynghorydd diogelwch tân.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelwch yr amgylchedd ac mae systemau monitro cadarn ar waith.

**3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?**

Mae'r cyfleusterau yn ddeniadol ac yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu.

Mae system adnabod olion bysedd ar waith sy'n sicrhau mai dim ond pobl awdurdodedig all gael mynediad i'r adeilad. Cedwir cofnod o bob ymwelydd a disgwylir i ymwelwyr gofrestru wrth ddod i mewn i'r adeilad. Caiff y safle ei gynnal a'i gadw a'i addurno'n dda ac mae dodrefn ac adnoddau o ansawdd uchel ym mhob ystafell. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae gan y pum ystafell sylfaen gyfleusterau toiled cyfagos neu ardaloedd ar gyfer newid cewynnau. Mae ystafell benodedig ar gyfer paratoi

llaeth i'r babanod ac ardal gysgu ar wahân i'r babanod oddi ar ystafell Strawberry. Nodwyd gennym bod y crudiau yn agos at ei gilydd a thrafodwyd yr agwedd hon ar ddiogelwch. Dylid neilltuo mwy o le rhwng y crudiau yn yr ystafell hon er mwyn sicrhau na all y plant gyrraedd y crudiau eraill pan fyddant ar ddihun.

Mae ystafell fawr sy'n cynnwys adnoddau addas ar gael i'r staff, yn ogystal â swyddfa fawr sy'n edrych dros y cyntedd lle y gellir cynnal sgyrsiau cyfrinachol.

Mae'r rheolwyr yn sicrhau y caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw i safon dda er mwyn darparu gwasanaeth diogel ac ysgogol i'r plant. Mae angen rhai diwygiadau er mwyn sicrhau y caiff y plant eu goruchwylio'n ddiogel a bod digon o le rhwng pob crud.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu datblygiadol addas o ansawdd da, dan do ac yn yr awyr agored, ar gael i'r plant.

Gwelsom fod adnodd archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ddefnyddio i fonitro trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau ac er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf o ran materion iechyd a hylendid. Mae dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau priodol ar gael i'r plant sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae'r holl adnoddau o ansawdd uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym y caiff unrhyw deganau neu adnoddau sydd wedi torri eu taflu ar unwaith. Caiff yr holl ddodrefn ac adnoddau eu dewis yn ofalus ac mae'n well gan y feithrinfa ddefnyddio dodrefn pren a ffibrau naturiol. Mae'r ardal awyr agored yn wastad ac yn cynnig gofod da i'r plant ymgymryd â gweithgareddau corfforol. Prynwyd adnoddau ychwanegol yn ddiweddar yn dilyn ymarfer ymgynghori â'r rhieni a awgrymodd y gellid cynnig gwell dewis o weithgareddau yn yr ardal hon. Roedd hyn yn cynnwys cegin fwd, ardal blannu a thyfu a rhai teganau ar olwynion. Rhoddir sylw da i gynaliadwyedd a defnyddir amrywiaeth eang o eitemau wedi'u hailgylchu. Mae'r rhieni yn rhoi adnoddau ailgylchu i'r feithrinfa a gwelsom gar yn ystafell Plum Tree a oedd wedi'i wneud o focs mawr.

Mae ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar yn helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gadarn ac ymdeimlad o ddiben sy'n sicrhau gwelliannau a chanlyniadau da i'r plant a rennir gyda'r staff a'r rhieni. Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro a gwerthuso'r holl weithdrefnau ac sy'n hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch. Mae'r arweinwyr yn darparu cefnogaeth dda i'r staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac sy'n cael cyfleoedd datblygiadol a sesiynau goruchwylio rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd 2010 ac maent yn defnyddio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol i lywio eu harferion.

Caiff y gwasanaeth ei drefnu'n dda ac mae ganddo weledigaeth glir sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal plant Montessori. Darperir hyfforddiant a mentora i'r staff er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r disgwyliadau hyn. Ceir datganiad o ddiben manwl a chynhwysfawr. Nid yw'r ddogfen hon bob amser yn adlewyrchu'r gwasanaeth gweithredol yn gywir a gwnaethom drafod yr angen i newid hyn gyda'r person â chyfrifoldeb. Mae hyn yn ymwneud â'r honiad bod y gwasanaeth yn cynnig cymarebau staff i blant sy'n uwch na'r cymarebau yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i'r datganiad o ddiben eu hanfon i AGC yn ôl y disgwyl.

Defnyddir matrics hyfforddiant i gofnodi'r hyfforddiant a gwblheir gan y staff a phryd y mae angen diweddaru'r hyfforddiant hwnnw. Mae pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac mae 14 o aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn wybodus ynghylch pob agwedd ar y gwasanaeth ac yn chwarae rhan ganolog wrth drefnu a chynllunio'r gwasanaeth. Mae'n rhannu ei hamser rhwng y ddau wasanaeth sy'n eiddo iddi ac ar gael fel y bo'r angen. Mae'n amlwg ei bod yn adnabod y plant yn dda a bod cydberthynas dda rhyngddi â llawer o'r rhieni. Clywsom yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio gyda'r rhieni ac yn achlysurol yn ystod llawer o'r sesiynau ac mae un siaradwr Cymraeg rhugl o leiaf ym mhob un o'r ystafelloedd sylfaen. Mae'r plant yn meithrin dealltwriaeth o'r iaith drwy ganeuon a rhigymau a gaiff eu hailadrodd bob dydd.

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn sicrhau bod y systemau a'r gweithdrefnau yn gweithio er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a chanlyniadau cadarnhaol i'r plant.

## 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr systemau da ar waith er mwyn cynllunio ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei bod wrthi'n cwblhau'r adroddiad ansawdd gofal gofynnol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig hunanasesiad o'r gwasanaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddefnyddio gwybodaeth gan y plant, y rhieni a'r staff i fyfyrio ar ansawdd y gwasanaeth ac unrhyw welliannau sydd eu hangen. Mae'r unigolyn cyfrifol yn deall bod angen cyflwyno'r ddogfen hon i AGC ar ôl blwyddyn o weithredu. Cynhelir gwerthusiadau rheolaidd o'r gwasanaeth yn ystod cyfarfodydd tîm lle y bydd y staff yn cynllunio gweithgareddau ac yn cydfyfyrio ar lwyddiant sesiynau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i leisio eu barn a rhannu syniadau am unrhyw welliannau sydd eu hangen yn ystod cyfarfodydd tîm ac yn ystod sesiynau goruchwylio unigol. Mae gweithdrefn gwynion ar waith ac mae'r person â chyfrifoldeb yn ymchwilio'n drylwyr i unrhyw gwynion. Mae'r cofnodion yn dangos yr ymdriniwyd â'r holl gwynion yn foddhaol.

Mae cynllun gwella cadarn ar waith sy'n amlinellu'r camau gweithredu i'w cymryd o fewn terfynau amser wedi'u diffinio'n glir. Mae'r gwelliannau a gynlluniwyd yn cynnwys y cais cyswllt newydd i rieni ei ddefnyddio, hyfforddiant rheoli ymddygiad i bob aelod o staff, prynu adnoddau ychwanegol ac adolygu asesiadau risg.

Mae systemau a gweithdrefnau effeithiol a hydrin ar waith sy'n ategu datblygiadau i'r gwasanaeth.

## 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Defnyddir y tîm yn effeithiol ym mhob un o'r ystafelloedd sylfaen ac mae pob aelod o staff yn glir ynghylch ei gyfrifoldebau.

Gwelsom staff hyderus a ddywedodd wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda. Dengys ffeiliau'r staff dystiolaeth o gyfnodau sefydlu trylwyr a hyfforddiant cychwynnol cyn iddynt ddechrau g weithio gyda'r plant. Disgwylir i'r staff ymgyfarwyddo â'r holl bolisïau a gweithdrefnau yn ystod y cyfnod hwn. Mae system hefyd ar waith lle y dewisir un polisi penodol bob mis er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r holl wybodaeth ar gael i ddangos bod proses recriwtio ddiogel a thrylwyr ar waith. Roedd ffeil pob aelod o staff yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), geirdaon a thystiolaeth o'u hanes gwaith. Nid yw'r staff yn dechrau gweithio yn y feithrinfa hyd nes bod eu gwiriadau wedi'u cwblhau. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd lle y cânt gyfle i fyfyrio ar eu rolau ac i drafod unrhyw ofynion perthnasol o ran datblygiad personol ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Defnyddir gweithwyr asiantaeth yn lle staff sy'n absennol. Ni chaiff unrhyw aelodau o staff asiantaeth eu gadael gyda'r plant heb fod aelod arall o staff yn

bresennol. Ni chaiff y person â chyfrifoldeb ei gyfrif yn y cymarebau staff i blant ond mae ar gael i helpu pan fydd angen.

Mae'r arweinwyr yn darparu cymorth ac arweiniad effeithiol i'r staff er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r plant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gyda'r rhieni er mwyn meithrin ymddiriedaeth a sicrhau trefniadau cyfathrebu clir.

Mae'r gweithwyr allweddol yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am ofal a llesiant y plant ar gael cyn iddynt ddechrau yn y feithrinfa. Cynhelir cyfarfodydd gyda'r rhieni er mwyn gallu diweddaru unrhyw wybodaeth a gofnodir yn ffeiliau'r plant. Dangosodd dau riant yr 'ap' i ni a ddefnyddir i ddarparu gwybodaeth i rieni drwy gydol y dydd. Caiff ei werthfawrogi ac mae'n rhoi tawelwch meddwl iddynt. Dywedodd y rhieni hefyd wrth yr arolygwyr eu bod wedi mynd i gyfarfod gyda'r nos yn ddiweddar i drafod cynnydd eu plant ac i gyfarfod â'r staff a'u bod wedi croesawu'r cyfle hwn. Gwelsom 18 o holiaduron a ddychwelwyd gan rieni a oedd yn cynnig cyfle iddynt ddatgan eu barn am bob agwedd ar y gwasanaeth. Roedd pob un ohonynt yn gadarnhaol ac mae unrhyw awgrymiadau a gyflwynwyd wedi'u cynnwys yng nghynllun gwella'r feithrinfa. Caiff cylchlythyrau rheolaidd eu dosbarthu a cheir gwybodaeth dda ar yr hysbysfyrddau yn y cyntedd am y bwydlenni ac unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau â nifer o asiantaethau sy'n rhoi cymorth fel y bo angen. Mae hyn yn cynnwys addysg, iechyd a chymorth Cymraeg.

Mae'r arweinwyr yn cynnal cydberthnasau da â phartneriaid er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth mor fuddiol â phosibl i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella:

- Helpu'r plant i feithrin sgiliau hunan-help yn ystod prydau bwyd;
- cynyddu'r gofod rhwng y crudiau yn ystafell gysgu'r babanod;
- sicrhau y caiff babanod eu monitro'n gyson yn yr ystafell gysgu;
- sicrhau bod digon o staff ar gael i fwydo'r babanod yn ystafell Strawberry;
- dylid rhannu gwybodaeth am alergeddau'r plant gyda phob aelod perthnasol o'r staff;
- dylid cynllunio amseroedd bwyd er mwyn sicrhau bod y plant yn aros cyn lleied â phosibl;
- dylid storio meddyginiaeth yn ddiogel bob amser;
- dylai cofnodion datblygiadol y plant gynnwys targedau ac asesiadau o ganlyniadau;
- dylai'r person â chyfrifoldeb fynychu hyfforddiant amddiffyn plant estynedig;
- dylai'r datganiad o ddiben adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd arolygiad ôl-gofrestru llawn wedi'i drefnu a ystyriodd hefyd nifer o bryderon a gyflwynwyd. Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth am wyth awr ar y diwrnod cyntaf a phedair awr ar yr ail ddiwrnod. Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a gawsant drwy gydol y sesiynau gan ddefnyddio ein hadnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae hyn yn galluogi'r arolygwyr i arsylwi ar fywyd a'i gofnodi o safbwynt plentyn ac yn nodi sut mae'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir;

- gwnaethom gynnal gwiriad gweledol o'r safle y tu mewn a'r tu allan;
- gwnaethom siarad â nifer o'r plant, chwe rhiant, trawsdoriad o staff o bob un o'r pedair ystafell sylfaen, y ddau gogydd, yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb;
- gwnaethom edrych ar y wybodaeth a ddelir gennym a gyflwynwyd ar adeg cofrestru'r feithrinfa;
- gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Roedd y rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, dogfennau iechyd a diogelwch a'r polisi diogelu. Gwnaethom hefyd edrych ar ffeiliau pedwar aelod o'r staff a ffeiliau pedwar plentyn a
- gwnaethom ddarparu adborth manwl i'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb ar ddiwedd yr arolygiad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Andrea McCormack** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Leah Grisdale** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **78** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 7.45 a 18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg a Chymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf** |
| **Dyddiadau'r arolygiad hwn** | **22 a 23 Awst 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol '*Mwy na Geiriau*' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |